

CYNGHORION DEFNYDDIOL O SIR DDINBYCH

Mae Cyngor ar Bopeth Sir Ddinbych wedi gweithio gyda Chyngor Sir Ddinbych, nifer o ysgolion ar draws yr ardal a phobl yn y gymuned i sefydlu cynllun ailgylchu ar gyfer ysgolion sy'n darparu gwisgoedd ysgol wedi'u hailgylchu trwy siopau dros dro yn y gymuned.

Mae'r siopau hyn yn derbyn rhoddion ond maen nhw hefyd yn rhoi'r cyfle i rieni/ofalwyr brynu blaser newydd am £15, a'i gyfnewid am un mwy o faint neu gael eu £15 yn ôl os byddan nhw'n dychwelyd y blaser mewn cyflwr da pan na fydd ei angen mwyach. Mae hyn yn bosibl oherwydd gwneir ceisiadau am grantiau sy'n cael eu defnyddio wedyn i gyfrannu at y gost a lleihau'r pris mae angen i rieni/ofalwyr ei dalu.

Tra byddan nhw yn y siop dros dro, mae cyfle i rieni, gofalwyr ac aelodau o'r teulu gael gwybodaeth a chymorth gan Gyngor ar Bopeth neu drefnu apwyntiad os byddan nhw'n dymuno.

Lluniwyd y Cyngorion Defnyddiol hyn gan Gyngor Ar Bopeth Sir Ddinbych er mwyn rhannu'r gwersi a ddysgwyd a helpu cynlluniau eraill i dyfu.

Sefydlu cynllun a chael cefnogaeth

- ✓ Ymchwiliwch i'ch cymuned. Gofalwch fod pawb, yn enwedig rhieni/gofalwyr yn teimlo'n rhan o'r cynllun ac yn deall yn glir sut bydd eu plant yn cael budd ohono.
- ✓ Dilëwch y stigma trwy hyrwyddo elfen ailgylchu'r cynllun i'ch cyngor, ysgolion a theuluoedd lleol.
- ✓ Rhaid hyrwyddo'r cynllun ar sail:
Ailgylchu - Cydlyniant Cymunedol — Atal Tlodi
- ✓ Cysylltwch ag ysgolion i esbonio beth hoffech ei wneud, beth roeddech chi'n gobeithio y gallen nhw ei wneud a chytuno wedyn ar y disgwyliadau.
- ✓ Gofynnwch am ganiatâd i fynd i gyfarfodydd clystyrau o ysgolion; bydd hynny'n sicrhau eich bod yn cyrraedd pob pennaeth yn yr ardal.
- ✓ Ewch â gwisgoedd ysgol wedi'u hailgylchu, wedi'u golchi, eu smwddio, eu rhoi mewn bagiau a'u trefnu yn ôl maint gyda chi pan fyddwch chi'n cyflwyno'r cynllun i benaethiaid ysgolion ac eraill er mwyn iddyn nhw weld ansawdd y gwisgoedd byddwch chi'n eu cynnig.
- ✓ Dewch o hyd i noddwyr, cysylltwch â nhw, rhowch ddatganiad cenhadaeth iddyn nhw a gofynnwch am nawdd.
- ✓ Cysylltwch â'ch Cyngor Tref a'ch Cyngor Sir, dylai bod gan y cyngorydd gwrthdlodi ddiddordeb yn y cynllun.

- ✓ Efallai bydd Cynghorau Tref yn gallu darparu grant blynyddol i'ch helpu i ychwanegu at y stoc, i'ch galluogi i ddarparu grantiau bychain a/neu ddarparu talebau esgidiau.

Rhedeg y cynllun

Mae gan lawer o ysgolion eiddo coll brwnt a diddefnydd ar hyd y lle y byddan nhw am gael gwared â nhw. Yn aml, bydd gofyn am yr eitemau hyn yn ffordd well o gael gwisgoedd na dibynnu ar roddion gan rieni a'r gymuned yn unig.

- ✓ Chwiliwch am siop wag i ddechrau a gofynnwch i'r landlord ganiatáu wythnos am ddim. Cafodd un cynllun llwyddiannus hyd i siop a fu'n wag am bum mlynedd; gwerthwyd y siop ar ôl yr ail sesiwn werthu - ffaith a all fod yn ddefnyddiol wrth i chi geisio gwerthu'r syniad i'r landlord.
- ✓ Gofalwch fod y gwisgoedd yn lân ac wedi'u cyflwyno'n dda. Mae rhieni a phlant wedi dweud bod hyn yn bwysig. Meddyliwch am y profiad prynu o safbwynt rhieni/gofalwyr a'r plentyn neu'r person ifanc a all fod yn eu cwmni. Efallai byddwch chi am ystyried defnyddio pecynnau sy'n gydnaws â'r amgylchedd.
- ✓ Gofalwch y gallwch recriwtio gwirfoddolwyr sydd o'r un feddwl â chi a all helpu i olchi a smwddio dillad.
- ✓ Cynhaliwch ddigwyddiad mor agos â phosibl at ddechrau gwyliau haf y plant. Bydd hynny'n arbed i rieni orfod treulio'r haf yn poeni am brynu gwisg ysgol newydd; a byddan nhw'n gallu mwynhau'r gwyliau gyda'u plant yn lle hynny.
- ✓ Anogwch rieni i fynd â mwy nag un wisg er mwyn sicrhau y gallan nhw eu cadw mewn cyflwr da a bod gwisg lân gan y plentyn.
- ✓ Ar ôl y sesiwn werthu, rhowch wisgoedd ychwanegol i'r ysgolion i'w cadw ar gyfer achosion brys a disgyblion newydd - mae hwn eto wedi bod yn fodel llwyddiannus iawn.
- ✓ Gallai pobl gyfrannu ffrogiau haf a siorts trwy gydol y flwyddyn. Os bydd eich cynllun ar waith yn yr haf, meddyliwch sut gallech chi rannu'r eitemau hyn cyn misoedd yr haf rhag iddyn nhw fynd yn wastraff. Er enghraifft, rydyn ni'n mynd â gwisgoedd haf wedi'u golchi, eu smwddio, eu rhoi mewn bagiau a'u trefnu yn ôl maint, i ysgolion ym mis Ebrill. Mae hynny'n gweithio'n dda yn ein profiad ni.
- ✓ Gallech feddwl am sut gallai'ch cynllun ddarparu cyngor a chymorth i rieni a gofalwyr. Gallai hyn gynnwys eu helpu i wneud cais am brydau ysgol am ddim, sy'n gallu bod yn rhwystr i lawer o deuluoedd. Mae ein cynllun ni yn codi £1 ar bob rhiant, yn cymryd eu manylion personol, yn gofyn iddyn nhw lofnodi ffurflen GDPR ac yn cynnal archwiliad budd-daliadau cyflym. Yn ogystal â nodi diffygion o ran budd-dal, mae hyn yn caniatáu hefyd i'r cynllun gasglu ystadegau i'w rhoi mewn adroddiad diwedd blwyddyn i gyllidwyr.
- ✓ Cofiwch fod grantiau addysgol ar gael i rai teuluoedd. Nid yw rhieni/gofalwyr ar incwm isel yn gallu cael rhai o'r grantiau hyn. Fodd bynnag, gallech gynnig grantiau bach, os byddwch yn codi arian yn llwyddiannus.

- ✓ Gall gymryd dwy flynedd i sefydlu'ch cynllun. Byddwch yn amyneddgar oherwydd mae'n cymryd amser. Mae ein cynllun ni wedi hen sefydlu ac mae'n boblogaidd dros ben gyda rhieni ac ysgolion fel ei gilydd.